Ewch ati i greu eich Stribed Comig eich hun.

Ar gyfer Wythnos Celf Plant, rydym am eich herio i wneud eich stribed comig eich hun!

I gael ysbrydoliaeth, edrychwch ar y llyfrau comig a'r nofelau graffig y gallwch eu lawrlwytho am ddim gan RB Digital drwy ein catalog

https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/card_cy/

Dyma rai syniadau a chynghorion i'ch helpu:

- Nodwch syniadau fel rhestr neu lluniwch fap cof neu ddiagram corryn.
- Ceisiwch feddwl am syniadau ar gyfer y plot. Gall y stori fod am unrhyw beth o gwbl -o fywyd bob dydd i ddychymyg pur.
- Meddyliwch am y cymeriadau rydych chi eu heisiau yn eich llyfr comig - sut maen nhw'n edrych, sut maen nhw'n ymddwyn, pwy yw eu ffrindiau?
- Chwiliwch am ysbrydoliaeth mewn llyfrau, cylchgronau, ffilmiau ac ar-lein.
- Defnyddiwch y cwestiynau hyn i geisio datblygu eich stori: ' Allwch chi feddwl am rywbeth doniol a allai ddigwydd? ', ' Beth allai ddigwydd nesaf? ', ' Sut ydych chi'n gosod yr olygfa? ', ' Beth yw'r tro cynffon yn y stori? '.
- Pan fyddwch wedi penderfynu ar eich cymeriadau a'ch stori, cynlluniwch beth fydd yn mynd ym mhob blwch o'r stribed comig. Gallwch ddefnyddio'n templed ni, neu wneud un eich hun!
- Unwaith y bydd digon o syniadau gennych, nodwch eich syniadau ar bapur!

Diolch i'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol am adael i ni ail-greu ac ailgynhyrchu'r cynghorion hyn. Am fwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol: https://literacytrust.org.uk/search/?query=comic+books

Templed: Ewch ati i greu eich Stribed Comig eich hun!